



Case Study

Pontio'r bwlch sgiliau gyda chwe phrentis newydd yn ne Cymru

Mae chwe gŵr ifanc lleol bellach yn mwynhau manteision prentisiaeth strwythuredig diolch i Morgan Sindall Construction, Bouygues UK a CASS Scaffolding.

Ariennir y cwrs yn llawn gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a bydd yn mynd â dysgwyr drwy raglen ddysgu strwythuredig 18 mis yn Abertawe.

Hwn yw'r cwrs hyfforddi sgaffaldiau cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn galluogi'r dysgwyr i gydbwysu dysgu yn y coleg â manteision datblygiadau ymarferol allan ar y safle gyda'r tri sefydliad nawdd.

“Diolch am helpu'r chwe dyn ifanc hyn i sicrhau'r cyfle i gael prentisiaeth 18 mis. Mae cael y cyfle i ddysgu eu crefft mewn amgylchedd proffesiynol, gweithio ar brosiectau cwmni o'r radd flaenaf lle mae popeth yn cael ei wneud yn unol ag arfer gorau'r diwydiant, yn gyfle gwych!”

Kenny Willan, CASS



Daeth y gefnogaeth wedi i CASS Scaffolding wneud eu dyheadau gwerth cymdeithasol yn glir drwy gyrraedd safon Aur yn Ysgol Gynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi.

Yn ogystal, roedd CASS hefyd eisiau penodi prentisiaid o'r ardal leol. Fodd bynnag, fel arfer mae'n ofynnol i brentisiaid deithio i Birmingham i gael eu hyfforddiant ymarferol.

Ond, am y tro cyntaf yng Nghymru, agorodd Canolfan Arloesi Adeiladu Cymru (CWIC) academi sgaffaldiau yn Abertawe a phrentisiaid CASS oedd y garfan gyntaf o ddysgwyr.

Bydd y prentisiaid yn parhau i ddysgu dros y cwrs 18 mis, gan gymysgu eu hastudiaethau â dysgu yn y gwaith mewn safleoedd adeiladu fel Ysgol Uwchradd Whitmore yn y Barri, de Cymru.

Mae Ysgol Uwchradd Whitmore yn brosiect gwerth £30 miliwn sy'n cael ei ddarparu gan Morgan Sindall Construction. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yn darparu ysgol uwchradd newydd sbon o'r radd flaenaf i ddysgwyr yn ardal Cyngor Bro Morgannwg.



“Rwy’n falch o gael cynnig cyfle i gael gwaith sefydlog gyda’r cyfle i gynilo ar gyfer car a dysgu crefft yn yr amgylchedd iawn.”

Owain Lewis, Prentis

“Bydd y brentisiaeth hon yn fy helpu i brynu car a chynilo am flaendal ar gyfer tŷ, gan wybod bod gen i grefft i’m cefnogi.”

Kieran Hawkins, Prentis

